

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

**Rôl Cymru yn y broses o wneud
penderfyniadau yn yr UE**

Mawrth 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8008

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: CLA.Committee@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

**Rôl Cymru yn y broses o wneud
penderfyniadau yn yr UE**

Mawrth 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cylch gwaith a phwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 15 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol ac arfer ei bwerau fel y'u nodir yn y Rheolau Sefydlog. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw faterion deddfwriaethol cyffredinol eu natur sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru neu sy'n ymwneud â'r cymhwysedd hwnnw, a chyflwyno adroddiadau arnynt.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



David Melding (Cadeirydd)

Dirprwy Lywydd
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Suzy Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Julie James

Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



Eluned Parrott

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



Simon Thomas

Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor.....	5
1. Cyflwyniad.....	7
Cylch gwaith y Pwyllgor.....	7
Cylch gorchwyl.....	7
Tystiolaeth.....	8
2. Cefndir.....	12
3. Trafodaeth.....	14
Dylanwad effeithiol ym Mrwsel.....	14
Tŷ Cymru a rôl swyddfa'r UE Llywodraeth Cymru.....	16
Llais Cymru yn y Cyngor a chydberthnasau â Llywodraeth y DU.....	19
Rôl Senedd Ewrop.....	25
Rôl Pwyllgor y Rhanbarthau a Phwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop.....	28
Dull strategol Llywodraeth Cymru.....	30
Atodiad 1 – Rhestr dystiolaeth.....	36
Atodiad 2 – Rhestr o dystiolaeth lafar ac ymweliadau'r Pwyllgor.....	37
Atodiad 3 - Y Weithdrefn Ddeddfwriaethol Gyffredin: diagram enghreifftiol.....	38

Argymhellion y Pwyllgor

Argymhelliad 1 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad rheolaidd o'i defnydd o ddiplomyddiaeth 'feddal' i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar wireddu ei gweledigaeth a'i nodau strategol ar gyfer materion yr UE (gweler argymhelliad 12) ac yn manteisio i'r eithaf ar effeithiolrwydd ei phresenoldeb ym Mrwsel. (Tudalen 16)

Argymhelliad 2 Rydym yn argymell bod cyd-leoliad sefydliadau allweddol o fewn swyddfa Gymreig ym Mrwsel yn parhau ond y caiff yr ystod o sefydliadau sy'n rhan ohoni ei chryfhau drwy ychwanegu cynrychiolwyr o'r sector busnes a'r trydydd sector. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ac annog y newid hwn mewn ffordd ragweithiol. (Tudalen 17)

Argymhelliad 3 Yn unol ag argymhelliad 2, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ei phresenoldeb ym Mrwsel ond ei bod yn atgyfnerthu ei rôl fel yr awgrymir ym mharagraffau 38 a 39 ac yn rhoi mwy o arweinyddiaeth i sefydliadau Cymru drwy fabwysiadu rôl fwy strategol a chydgyssylltiedig (fel yr awgrymir ym mharagraffu 41 a 42). (Tudalen 18)

Argymhelliad 4 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i'w chyfraniad at y gwaith o baratoi nodyn annerch y DU ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor ond, at hynny, egluro pa mor systematig yw ei chyfraniad at y gwaith paratoi mewn perthynas â phob coflen polisi sy'n ymwneud â materion datganoledig. (Tudalen 23)

Argymhelliad 5 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn crybwyll wrth Lywodraeth y DU sut mae adrannau Whitehall yn cydweithio ag adrannau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â meysydd polisi'r UE mewn meysydd datganoledig ac yn ysgrifennu at y Pwyllgor hwn gyda manylion am ymateb Llywodraeth y DU. (Tudalen 25)

Argymhelliad 6 Er mwyn monitro eu heffeithiolrwydd, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud datganiad blynyddol ar sut mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Chyd-bwyllgor Gweinidogion Ewrop yn gweithio o safbwynt Llywodraeth Cymru. (Tudalen 25)

Argymhelliad 7 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei dull o ymgysylltu ag Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru ac wrth wneud hynny, ystyried paragraff 75 o'r adroddiad hwn. (Tudalen 27)

Argymhelliad 8 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, ar gyfer holl Femoranda Cyd-ddealltwriaeth Llywodraeth y DU ar gynigion polisi'r UE, yn

cyflwyno datganiad (neu ddogfen arall) sy'n nodi ei sylwadau ar y materion polisi a gwmpesir. (Tudalen 28)

Argymhelliad 9 Rydym yn argymell bod cynrychiolwyr sy'n Aelodau o'r Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau yn gosod datganiad ysgrifenedig gerbron y Cynulliad yn rheolaidd, gan amlinellu'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud. (Tudalen 29)

Argymhelliad 10 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi eglurhad o'i chydberthynas ag aelodau Cymru o Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop a'i bod hefyd yn rhoi'r lefel briodol o gefnogaeth iddynt i sicrhau eu bod wedi'u briffio'n llawn pan fyddant yn cynrychioli Cymru yn eu trafodaethau. (Tudalen 30)

Argymhelliad 11 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ystyried ffyrdd o gyflymu'r broses o benodi aelodau newydd o Gymru i Bwyllgor y Rhanbarthau a Phwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop. (Tudalen 30)

Argymhelliad 12 Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn diwygio ei strategaeth ar gyfer yr UE cyn gynted â phosibl, gan ystyried yr holl argymhellion a'r sylwadau a fynegir yn yr adroddiad hwn. Dylid gwneud hyn mewn ffordd agored a chynhwysol, gan ymgynghori'n ffurfiol â phob sefydliad perthnasol i sicrhau yr ystyrir y cyfoeth o wybodaeth a diddordeb yn Ewrop sy'n bodoli yng Nghymru. (Tudalen 33)

Argymhelliad 13 Rydym yn argymell y cynhelir dadl flynyddol ar strategaeth yr UE yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol i gyd-fynd â'r datganiad blynyddol y cyfeirir ato yn argymhelliad 6. (Tudalen 34)

1. Cyflwyniad

Cylch gwaith y Pwyllgor

1. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ("y Pwyllgor") yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 21¹, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") neu Weinidogion Cymru, neu sy'n ymwneud â'r cymhwysedd hwnnw.
2. O fewn hyn, bydd y Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol ar yr offerynnau hynny. Bydd y Pwyllgor yn ystyried a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offerynnau'n unol ag ystod o seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 21 ac yn cyflwyno adroddiadau ar hynny.
3. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw darpariaethau Biliau'r Cynulliad a Biliau Senedd y DU sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol wneud is-ddeddfwriaeth, ac yn cyflwyno adroddiadau ar hynny.

Cylch gorchwyl

4. Ar 18 Mawrth 2013, gwnaethom gytuno i gynnal ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE. Roedd y cylch gorchwyl fel a ganlyn:
 - Gall y Pwyllgor:
 - gael tystiolaeth arbenigol ar sut y caiff buddiannau Cymru mewn meysydd datganoledig eu cynrychioli ar hyn o bryd yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE;
 - ystyried a yw'r trefniadau presennol yn galluogi Cymru i gael llais effeithiol yn yr UE;
 - ystyried sut y caiff buddiannau Cymru eu hymgorffori yn 'Adolygiad o'r Cydbwysedd o ran Cymhwysedd rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd' Llywodraeth y DU; a

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Rhagfyr 2012

- gwneud argymhellion, os yw'n briodol, ynghylch sut y caiff buddiannau Cymru mewn meysydd datganoledig eu hystyried yn yr UE.

5. O'r dechrau roeddem yn glir mai diben yr ymchwiliad oedd ystyried sut y caiff buddiannau Cymru eu cynrychioli a sut y caiff ei llais ei chlywed yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE (yn hytrach na thrafodaeth fwy cyffredinol ynghylch aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd).

Tystiolaeth

6. Gwnaethom alw am dystiolaeth ysgrifenedig ar 16 Mai 2013 ac mae manylion am yr ymatebion a gafwyd wedi'u rhestru yn Atodiad 1.

7. Gwnaethom hefyd gynnal deg sesiwn dystiolaeth lafar ac ategwyd y gwaith hwn o gasglu tystiolaeth gyda dau ymweliad gan y Pwyllgor i Frwsel ym mis Mehefin a mis Hydref 2013. Mae'r manylion yn Atodiad 2.

8. Cafwyd y mwyafrif llethol o'r dystiolaeth mewn perthynas â gweithgareddau llywodraethau (yn hytrach na deddfwrfeydd) ac felly mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar rôl Llywodraeth Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE. Felly, nid yw'n trafod yn fanwl gwaith y Cynulliad o ran materion yr UE (sy'n cynnwys y cyswllt rhwng deddfwrfeydd gydag Aelodau o Senedd Ewrop) na gwaith cyrff a sefydliadau eraill yng Nghymru.

9. Yn yr adroddiad hwn defnyddir y cyfeiriadau canlynol:

- y gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru, "Prif Weinidog Cymru";
- Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, "y Gweinidog Cyfoeth Naturiol";
- Fiona Hyslop MSP, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban ar gyfer Diwylliant a Materion Allanol, "Gweinidog yr Alban";
- y Gwir Anrhydeddus David Lidington AS, Gweinidog Gwladol y DU ar gyfer Ewrop, "Gweinidog y DU";

10. Ceir geirfa o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn isod:

- mae **Pwyllgor y Rhanbarthau** yn gynulliad gwleidyddol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a rhanbarthol o bob rhan o'r Undeb Ewropeaidd ('yr UE'). Ymgynghorir â'r Pwyllgor pan fydd yr UE yn datblygu polisiau a deddfwriaethau sy'n berthnasol i

faterion lleol a rhanbarthol. Mae gan Gymru bedwar cynrychiolydd ymhlith dirprwyaeth o 48 o'r DU (24 aelod llawn a 24 eilydd): dau o'r Cynulliad a dau o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

- y **Cyngor** (y mae tystion yn cyfeirio ato weithiau fel "Cyngor y Gweinidogion") yw'r prif gorff penderfynu yn yr UE, sy'n cynrychioli'r llywodraethau cenedlaethol. Weithiau mae'n pleidleisio drwy fwyafrif cymwysedig, weithiau drwy unfrydedd, yn dibynnu ar y mater. Mae Gweinidogion sy'n gyfrifol am bortffolios perthnasol o'r holl aelod-wladwriaethau'n cwrdd yn dibynnu ar y pwnc sy'n cael ei drafod, ee Gweinidogion Cyllid.
- mae **Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop** yn un o gyrff cynghori yr UE. Cafodd ei sefydlu i gynrychioli buddiannau'r grwpiau economaidd a chymdeithasol amrywiol. Mae'n cynnwys hyd at 350 o aelodau o'r gymdeithas sifil, gyda thri aelod o Gymru ar y cyd â'r 23 o aelodau o'r DU.
- y **Comisiwn Ewropeaidd** yw corff gweithredol yr UE. Prif rolau'r Comisiwn Ewropeaidd yw:
 - (i) pennu amcanion a blaenoriaethau i weithredu arnynt;
 - (ii) cynnig deddfwriaeth i'w mabwysiadu gan Senedd a Chyngor Ewrop;
 - (iii) rheoli a gweithredu polisiau a chyllideb yr UE;
 - (iv) gorfodi Cyfraith Ewrop (ar y cyd â'r Llys Cyfiawnder); a
 - (v) cynrychioli'r UE y tu allan i Ewrop (ee trafod cytundebau masnach rhwng yr UE a gwledydd eraill).
- mae'r **Cyngor Ewropeaidd** (sydd, ers Cytuniad Lisbon, yn Sefydliad yr UE ar wahân sy'n dwyn ynghyd 'Penaethiaid Gwladwriaethau a Llywodraethau') yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau a chyfeiriad gwleidyddol yr UE, yn ogystal â chytuno ar safbwynt aelod-wladwriaethau mewn perthynas â materion allweddol, fel y Fframwaith Ariannol Amlflwydd a chytuno ar unrhyw newidiadau i Gytuniadau ac ati. Fodd bynnag, nid oes ganddo unrhyw bwerau i ddeddfu, a'r Cyngor, sy'n cynrychioli llywodraethau'r aelod-wladwriaethau, sy'n cyflawni'r gwaith o ddydd i ddydd o ddeddfu a llunio polisiau.
- mae **Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd** yn sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith wrth ddehongli a defnyddio'r Cytuniadau.

Mae'n cynnwys un Barnwr i bob aelod-wladwriaeth ac wyth Adfocad Cyffredinol.

- mae'r **Cyngor Ewropeaidd** yn cynnwys Penaethiaid Gwladwriaethau neu Lywodraethau'r aelod-wladwriaethau. Mae'n cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac yn cynnwys Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd fel aelod llawn.
- **Senedd Ewrop** yw'r unig gorff a etholir yn uniongyrchol yn yr UE. Mae'n cynnwys 766 o Aelodau o 27 o aelod-wladwriaethau'r UE. Caiff Aelodau o Senedd Ewrop eu hethol bob pum mlynedd. Mae pedwar o'r 73 o Aelodau o'r DU yn cynrychioli Cymru. Ers Cytuniad Lisbon, mae Senedd Ewrop yn cyd-ddeddfu ar y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth a gaiff ei mabwysiadu gan yr UE. Mae hefyd yn meddu ar bwerau cyllidebu ac yn arfer rheolaethau democrataidd mewn perthynas â phob un o'r sefydliadau Ewropeaidd.
- **Horizon 2020** yw rhaglen Ymchwil ac Arloesedd yr UE ar gyfer 2014-2020, gyda chyllideb o tua €80 biliwn.
- mae'r **Cyd-gyngor Gweinidogion** wedi'i sefydlu gan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y DU a llywodraethau datganoledig. Ei ddiben yw cydgysylltu'n ganolog y gydberthynas gyffredinol rhyngddynt. Mae ei gylch gorchwyl yn cwmpasu'r materion sy'n pontio'r ffin rhwng meysydd datganoledig/heb eu datganoli. **Mae Cyd-gyngor Gweinidogion (Ewrop)** yn un o dri fformat y Cyd-gyngor Gweinidogion. Caiff ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Tramor, cyn pob un o gyfarfodydd y Cyngor Ewropeaidd, a gynhelir pedair gwaith y flwyddyn fel arfer. Mae'n gweithredu fel y fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a thrafod materion strategol neu drawsbynciol sy'n berthnasol i lywodraethau datganoledig.
- mae'r **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** yn cynnwys cyfres o gytundebau rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Mae'n cynnwys Concordat sy'n ymdrin â'r gwaith o gydgysylltu polisi'r UE a'i gweithredu.
- mae adroddiadau Senedd Ewrop yn paratoi safbwynt y Senedd ar gynigion ar gyfer polisi. Mae **rapporteurs** yn Aelodau o Senedd Ewrop a ddewisir o'r pwyllgor seneddol priodol i baratoi'r adroddiad. Mae gan Bwyllgor y Rhanbarthau ei rapporteurs ei hun hefyd.

- mae **Cytuniad Lisbon** yn gytundeb rhyngwladol sy'n diwygio'r ddau gytuniad sy'n ffurfio sail gyfansoddiadol yr Undeb Ewropeaidd. Cafodd ei lofnodi gan aelod-wladwriaethau'r UE ar 13 Rhagfyr 2007, a daeth i rym ar 1 Rhagfyr 2009.
- Mae **trafodaethau tairochrog** yn gyfarfodydd anffurfiol y mae cynrychiolwyr Senedd Ewrop, y Cyngor a'r Comisiwn Ewropeaidd yn mynd iddynt er mwyn ceisio dod i gytundebau cyfaddawd ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth ddrafft. Nid oes gan gytundebau a gyrhaeddir mewn trafodaethau tairochrog statws ffurfiol ac mae'n rhaid i unrhyw destunau cyfaddawd y cytunir arnynt gael eu mabwysiadu'n ffurfiol drwy'r broses a nodir yn y Weithdrefn Ddeddfwriaethol Gyffredin er mwyn bod yn gyfraith.
- Caiff **Memoranda Esboniadol Llywodraeth y DU** eu paratoi gan yr adran berthnasol o lywodraeth y DU i gyd-fynd â phob dogfen swyddogol a gyhoeddir gan y Comisiwn Ewropeaidd. Maent yn nodi barn Llywodraeth y DU ar oblygiadau dogfennau'r Comisiwn Ewropeaidd i'r DU o ran cyllid, y gyfraith, sybsidiaredd a pholisi, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall, fel a yw'r ddogfen yn aros am ystyriaeth bellach gan gyrff eraill y Gymuned Ewropeaidd. Yna mae'r Memorandwm Esboniadol yn destun gweithdrefnau craffu dau Dŷ'r Senedd ar gyfer materion Ewropeaidd. Mae'n rhaid i'r Memorandwm Esboniadol gael ei lunio o fewn deg diwrnod i gyflwyno'r ddogfen yn y Senedd.
- mae **Cynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd** (UKRep) yn cynrychioli'r DU mewn trafodaethau a geir yn yr UE.

2. Cefndir

11. Mae'r adran hon yn nodi'n gryno beth yw rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE, gan gynnwys y cynrychiolwyr amrywiol o Gymru yn sefydliadau allweddol yr UE sy'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, yn ogystal â rôl Llywodraeth Cymru, y Cynulliad a chyrrff eraill sy'n ceisio cael dylanwad.

12. Mae tri sefydliad o fewn yr UE - Senedd Ewrop, y Cyngor a'r Comisiwn Ewropeaidd - yn gyfrifol yn bennaf am y polisiau a'r deddfau sy'n gymwys o fewn yr UE. Y Weithdrefn Ddeddfwriaethol Gyffredin (sef y 'Weithdrefn Gydbenderfynu' cyn Cytuniad Lisbon) yw'r prif ddull lle caiff deddfau eu llunio ar lefel yr UE ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd polisi. Ceir diagram sgematig o'r broses yn Atodiad 3. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau a chyfeiriad gwleidyddol yr UE ond nid oes ganddo unrhyw bwerau i ddeddfu.

13. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn chwarae rôl ganolog yn y broses bolisi a deddfwriaeth. Fel 'cangen weithredol' yr UE, gwarcheidwad cytuniadau'r UE, y Comisiwn sy'n bennaf gyfrifol am gyflwyno cynigion ar gyfer polisiau a deddfwriaeth. Mae'n cynnal ymgynghoriad cynhwysfawr ac yn paratoi'n drwyadl cyn cyhoeddi cynigion, gan roi'r cyfle i randdeiliaid allweddol gyfrannu at y broses o lunio polisiau. O dan y Weithdrefn Ddeddfwriaethol Gyffredin, mae Senedd Ewrop a'r Cyngor, fel y sawl sy'n cyd-ddeddfu, yn trafod, yn dadlau, a gallant gynnig gwelliannau i gynigion a gyflwynir gan y Comisiwn Ewropeaidd, a'r nod yn y pen draw yw cytuno ar destun cyfaddawd terfynol sy'n dderbyniol i'r tri sefydliad, ac y gellir ei fabwysiadu'n ffurfiol fel cyfraith yr UE. Yna mae'r Comisiwn Ewropeaidd a'r aelod-wladwriaethau'n gyfrifol am weithredu cyfreithiau'r UE, a bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn sicrhau y caiff cyfreithiau eu defnyddio'n gywir a bod pawb yn cydymffurfio â hwy. Mae sefydliad arall, sef y Llys Cyfiawnder, yn datrys anghydfodau sy'n ymwneud â'r defnydd a'r gweithrediad hwnnw.

14. Mae'r Cynulliad, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill o Gymru yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r Comisiwn Ewropeaidd, yn arbennig ynghylch amaethyddiaeth a datblygu gwledig, polisi amgylcheddol, pysgodfeydd a materion morol, yn ogystal â pholisiau rhanbarthol a'r Cronfeydd Strwythurol.

15. Gan nad yw Cymru yn aelod-wladwriaeth, nid oes ganddi rôl uniongyrchol mewn perthynas â dau brif sefydliad 'llywodraethol' yr UE - y Cyngor a'r Cyngor Ewropeaidd. Mae'r Prif Weinidog yn cynrychioli'r DU ar y

Cyngor Ewropeaidd, tra bod Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth y DU yn cynrychioli'r DU ar y Cyngor. Mae UKRep yn cefnogi'r gwaith hwn ac mae adrannau Whitehall yn arwain y gwaith o ddydd i ddydd mewn perthynas â'r Cyngor.

16. Gall Gweinidogion a swyddogion Cymru fod yn rhan o ddirprwyaeth y DU yng nghyfarfodydd y Cyngor, ac maent yn gwneud hynny, ond llais y DU yw'r llais wrth y bwrdd. Felly, ar lefel y llywodraeth, 'llais anuniongyrchol' sydd gan Gymru; caiff ei buddiannau eu cynrychioli drwy safbwynt y DU ac mae ei chwmpas i gael dylanwad (yn ffurfiol yn y Cyngor) yn amodol ar allu Gweinidogion a swyddogion Cymru i ffurfio safbwynt trafod y DU.

17. O ganlyniad i hyn, mae gan Lywodraeth Cymru (a'r Cynulliad) ddi-ddordeb amlwg yn sut y caiff buddiannau'r DU eu diffinio a'u ffurfio yn y lle cyntaf, h.y. y prosesau o ran sut y bydd Gweinidogion y DU ac adrannau Whitehall yn cyrraedd 'safbwynt y DU'. Mae'r graddau y mae llywodraethau datganoledig yn cyfrannu at hyn ac yn gallu dylanwadu ar y safbwynt a'i ffurfio, yn hanfodol.

18. O ran polisiâu'r UE mewn meysydd datganoledig, ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio â Llywodraeth y DU o fewn fframwaith y Concordat ar Gydgysylltu Polisiâu Ewrop², sy'n nodi y bydd Llywodraeth y DU yn darparu cyfleoedd sy'n groes i'r llywodraethau datganoledig i ddylanwadu ar gynigion yr UE cyn gynted â phosibl. Ar y cyd â'r Cyd-gyngor Gweinidogion (Ewrop) mae'n deillio o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth³ rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Cynhelir y trafodaethau hyn o fewn y DU ei hun, yn hytrach nac ym Mrwsel, ac maent yn canolbwyntio ar y dynamig a'r cydberthnasau mewnol yn y DU.

19. Felly, un o brif themâu ein hymchwiliad oedd i ba raddau y mae'r trefniadau anstatudol presennol i reoli'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig yn darparu strwythur priodol lle gall Gweinidogion a swyddogion drafod safbwyntiau ffurfiol i'w defnyddio yn nhrafodaethau'r UE a chytuno arnynt; ac a oes angen eu disodli a defnyddio strwythur arall mwy ffurfiol.

² Cytundeb atodol i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth; gweler troednodyn 3

³ *Devolution: Memorandum of Understanding and Supplementary Agreements Between the United Kingdom Government, the Scottish Ministers, the Welsh Ministers, and the Northern Ireland Executive Committee*, Hydref 2013

3. Trafodaeth

Dylanwad effeithiol ym Mrwsel

20. Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chlywed yn amlwg yn dangos bod cyfathrebu da, presenoldeb effeithiol, amseriad mentrau ymgysylltu a chysylltiadau personol cryf yn hanfodol er mwyn cael dylanwad ym Mrwsel.⁴

21. At hynny, clywsom pa mor hanfodol ydyw i gydberthnasau gwaith da fodoli rhwng y rhwydwaith o'r chwaraewyr allweddol⁵ - sef y sefydliadau perthnasol o fewn yr UE, adrannau Llywodraeth Cymru (gan gynnwys swyddfa'r UE yn Nhŷ Cymru ym Mrwsel), y sefydliadau datganoledig cyfatebol ac, yr un mor bwysig, adrannau Whitehall y DU - oherwydd gall ansawdd cydberthnasau o'r fath gael dylanwad mawr ar effeithiolrwydd y mewnbwn i'r broses o wneud penderfyniadau.⁶

22. Yn amlwg mae angen sefydlu diwylliant o gydweithredu ar draws y rhwydweithiau a'r gweithrediadau amrywiol ym Mrwsel (yn arbennig pan fo angen ystyried y potensial i bersonoliaethau wrthdaro) i sicrhau bod Cymru yn cael y manteision gorau o aelodaeth y DU o'r UE. Yn gyffredinol, credwn fod cydberthnasau gwaith da yn bodoli a bod y rhain yn sicrhau budd i Gymru, a'u bod yn debygol o barhau i wneud hynny. Er hynny, mae lle bob amser i wella sut y mae'r cydberthnasau hyn yn gweithio a chryfhau'r cydweithrediad rhwng partneriaid sydd â dylanwad yn yr UE. Am y rheswm hwnnw, credwn ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru bwysu a mesur yn rheolaidd i nodi beth sydd wedi bod yn llwyddiannus ac yn aflwyddiannus, fel y gellir dysgu gwersi.

23. Nododd y dystiolaeth a gawsom fod enw da ym Mrwsel yn seiliedig ar sefydlu cydberthnasau gwaith cryf o fewn y Comisiwn a bod yn barod i ymgysylltu.⁷ Fodd bynnag, nid cydberthnasau a rhwydweithiau gwaith da yn unig sy'n cael effaith ar y gallu i gael dylanwad: mae amseriad yr ymgysylltiad hwnnw hefyd yn hanfodol.

24. Clywsom dro ar ôl tro fod ymgysylltu'n gynnar (a groesewir gan y Comisiwn) yn rhoi cyfle i is-seneddau aelod-wladwriaethau gael y dylanwad mwyaf a bod yn fwyaf effeithiol, yn arbennig wrth ddarparu syniadau a helpu

⁴ Er enghraifft, ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin 2013 a 14 Hydref 2013

⁵ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin 2013 a 14 Hydref 2013

⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, EU 3

⁷ Ymweliad y Pwyllgor, 17 Hydref 2013

i lywio cynigion polisi.⁸ Ystyriwyd bod ymgysylltu'n gynnar hefyd yn fodd i ganolbwyntio ar y broses ehangach o lunio polisiau, yn hytrach na'r broses ffurfiol o wneud penderfyniadau yn unig.⁹

25. Tra bod David Hughes, Pennaeth swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghaerdydd o'r farn bod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn dda ac yn effeithiol am gael gafael ar ffigurau allweddol yn y Comisiwn Ewropeaidd a'r Senedd Ewropeaidd¹⁰, mynegwyd barn y gallai'r ddau gorff o bosibl wneud mwy i nodi cynigion o ddiddordeb cyn gynted â phosibl.¹¹

26. Yn ein barn ni, bydd gweithredu ar wybodaeth a geir yn gynnar ac ymgysylltu'n gynnar â'r Comisiwn Ewropeaidd wrth lunio polisi yn sicrhau bod gwell siawns fod y cynigion drafft yn adlewyrchu buddiannau a phryderon Cymru, ac mae'r dull hwn yn ffordd llawer gwell o weithredu yn hytrach nac aros i gynigion gael eu cyhoeddi ac ymateb i'r rhain.

27. Am y rheswm hwnnw, credwn ei bod yn hanfodol nodi'r blaenoriaethau allweddol a chanolbwyntio arnynt, gan gydnabod nad yw'n bosibl trafod popeth yn fanwl. Felly, credwn hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru gael nodau strategol clir a strategaeth glir ynghylch sut i gyflawni'r nodau hyn, pwy i'w targedu a sut i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael (ym Mrwsel, Cymru a Llundain). Caiff y materion sy'n ymwneud â dull strategol Llywodraeth Cymru o ran yr UE eu trafod yn benodol mewn adran ddiweddarach (gweler paragraffau 89 i 102).

28. Yn ogystal ag ymgysylltu'n gynnar, ystyriwyd bod yn barod i arbrofi a bod yn rhan o arloesedd a pholisiau a phrosiectau peilot hefyd yn ffordd bwysig o gael dylanwad ym Mrwsel.¹² Gwnaed pwynt tebyg gan Michael Keating, yr Athro Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Aberdeen, a gyfeiriodd at y manteision o gael gwybodaeth dda, blaenoriaethu gweithgareddau ymlaen llaw a gallu ffurfio syniadau clir i fod yn rhan o'r broses o lunio polisiau.¹³

29. Daeth i'r amlwg yn ystod ein hymweliadau Pwyllgor ac o dystiolaeth arall fod Llywodraeth Cymru yn cael dylanwad mewn dwy brif ffordd:

⁸ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin 2013 a 14 Hydref 2013; y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 25] 18 Tachwedd 2013

⁹ Ymweliad y Pwyllgor, 17 Mehefin 2013

¹⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 148], 18 Tachwedd 2013

¹¹ Ymweliad y Pwyllgor, 14 Hydref 2013

¹² Ymweliad y Pwyllgor, 17 Mehefin 2013

¹³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 63], 15 Gorffennaf 2013

- (i) drwy ddefnyddio diplomyddiaeth 'feddal' y tu allan i'r sianeli ffurfiol, drwy gysylltiadau personol a'r defnydd o rwydweithiau (yn enwedig swyddogion Llywodraeth Cymru yn Nhŷ Cymru); a
- (ii) llwybr mwy ffurfiol, sef ddylanwad 'caled' drwy'r DU fel llais aelod-wladwriaeth yn y Cyngor a'r Cyd-gyngor Gweinidogion (Ewrop) .

30. Gwneir defnydd sylweddol o ddiplomyddiaeth feddal a chredwn fod Llywodraeth Cymru a'i chynrychiolwyr ym Mrwsel yn iawn i wneud hynny er mwyn sicrhau y caiff llais Cymru ei glywed. Mae effeithiolrwydd y dull hwn wedi'i arddangos mewn perthynas â'r polisi amaethyddol a'r Cronfeydd Strwythurol.¹⁴

Argymhelliad 1: rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad rheolaidd o'i defnydd o ddiplomyddiaeth 'feddal' i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar wireddu ei gweledigaeth a'i nodau strategol ar gyfer materion yr UE (gweler argymhelliad 12) ac yn manteisio i'r eithaf ar effeithiolrwydd ei phresenoldeb ym Mrwsel.

31. Yn gyffredinol roedd y mwyafrif llethol o'r dystiolaeth a gawsom yn nodi yr ymddengys bod y system anffurfiol yr ydym yn cyfeirio ati ym mharagraff 19 yn gweithio. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg bod cyfrifoldeb ar y llywodraethau datganoledig i ymgysylltu â'r gwaith o nodi eu buddiannau craidd, a mynegi eu pryderon drwy'r strwythurau a ddarperir.

32. Mae'r adrannau canlynol o'r adroddiad yn trafod y mater o ran dylanwad yn fanylach ac yng nghyd-destun rhai o'r strwythurau presennol sydd eisoes ar waith.

Tŷ Cymru a rôl swyddfa'r UE Llywodraeth Cymru

33. Tŷ Cymru yw cartref cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru ym Mrwsel, ond mae hefyd yn dwyn nifer o sefydliadau gwahanol ynghyd gyda swyddfeydd yr UE ym Mrwsel:

- Swyddfa'r UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Swyddfa Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ym Mrwsel; a
- Swyddfa Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel.

34. Gwnaethom gwrdd â swyddogion o bob cynrychiolaeth yn Nhŷ Cymru yn ystod ein hymweliad Pwyllgor cyntaf ar 17 Mehefin 2013 a gwnaethant

¹⁴ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin 2013 a 14 Hydref 2013

argraff dda arnom; yn benodol, roedd y pwyslais ar roi llwyfan i faterion o Gymru yn amlwg iawn. Cred llawer hefyd fod Tŷ Cymru yn cael budd o leoliad gwych, gyda gwerth arwyddocaol ar ddwyn ynghyd gynrychiolwyr o Gymru mewn un lle.¹⁵

35. Fodd bynnag, awgrymwyd inni fod angen i bresenoldeb cynrychiolwyr o'r trydydd sector a'r sector busnes gael ei ddatblygu o ystyried yr ymddengys bod bylchau yn y drefn bresennol.¹⁶

36. Yn ein barn ni, ceir manteision sylweddol o gyd-leoli sefydliadau allweddol yn Nhŷ Cymru. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, rydym yn cydnabod na chaiff rhai buddiannau allweddol eu cynrychioli ac felly mae ei gwmpas yn gyfyngedig. Felly, ystyriwn y gellid gwella Tŷ Cymru ymhellach drwy gael presenoldeb y sector busnes a'r trydydd sector, y credwn y bydd yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun manteisio i'r eithaf ar gyfraniad Cymru at Horizon 2020 a nifer o raglenni eraill yr UE sy'n seiliedig ar bartneriaethau rhwng sefydliadau a busnesau o wledydd gwahanol yr UE.

Argymhelliad 2: rydym yn argymhell bod cyd-leoliad sefydliadau allweddol o fewn swyddfa Gymreig ym Mrwsel yn parhau ond y caiff yr ystod o sefydliadau sy'n rhan ohoni ei chryfhau drwy ychwanegu cynrychiolwyr o'r sector busnes a'r trydydd sector. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi ac annog y newid hwn mewn ffordd ragweithiol.

37. Roedd yr adborth gan y sefydliadau y gwnaethom siarad â hwy ym Mrwsel ynghylch swyddfa'r UE Llywodraeth Cymru yn Nhŷ Cymru yn gadarnhaol, gan gyfeirio at agwedd broffesiynol ei staff, a nodi ei bod yn uchel ei pharch ac wedi sefydlu enw da ym Mrwsel.¹⁷

38. Mae cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn Nhŷ Cymru yn chwarae rôl ragweithiol wrth ddatblygu cydberthnasau a hwyluso rhwydweithiau gyda chynrychiolwyr eraill ym Mrwsel.¹⁸ Mae'n amlwg bod eu presenoldeb yn hollbwysig wrth sicrhau y caiff safbwynt Cymru ei glywed yn effeithiol ym Mrwsel ac yn cael dylanwad ar ddadleuon o fewn sefydliadau Ewrop. Fodd bynnag, clywsom rywfaint o dystiolaeth a oedd yn awgrymu rhai meysydd i'w gwella, er enghraifft, mwy o ddigwyddiadau i hyrwyddo Cymru¹⁹ a gwneud

¹⁵ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin 2013 a 14 Hydref 2013; y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 161] 18 Tachwedd 2013

¹⁶ Ymweliad y Pwyllgor, 17 Mehefin 2013

¹⁷ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin a 14 Hydref 2013

¹⁸ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin a 14 Hydref 2013

¹⁹ Ymweliad y Pwyllgor, 17 Mehefin 2013

mwy i gyfleu negeseuon allweddol mewn papurau briffio i CLILC, a'r sector addysg uwch a'r sector busnes yng Nghymru.²⁰

39. Yn gysylltiedig â hyn ac o ran hyrwyddo Cymru, credwn fod cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn Nhŷ Cymru yn cynnig y potensial i chwarae rôl weithredol yn y gwaith o drefnu dirprwyaethau masnach ar adegau allweddol, a dylid eu hannog i ddefnyddio eu dealltwriaeth a'u harbenigedd i alluogi hyn.

40. Rydym o'r farn bod cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ym Mrwsel wedi gosod y sylfeini angenrheidiol i sicrhau bod gan Gymru lais cryf a dealladwy a gaiff ei chlywed ym Mrwsel. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd a'r ddadl ynghylch cyfeiriad yr UE dros y pump i ddeg mlynedd nesaf, mae angen i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru adeiladu ar eu llwyddiant a bod yn barod i addasu i'r heriau sydd, heb amheuaeth, i ddod.

41. Yn ein barn ni, gall cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru gyflawni hyn yn rhannol drwy chwarae rôl fwy strategol a chydgyssylltiedig i'r sefydliadau a gynrychiolir yn Nhŷ Cymru, ac yn arbennig drwy annog, cefnogi a hyrwyddo eu hymgyssylltiad â'r cyfleoedd a gyflwynir gan amrywiaeth o raglenni cyllido newydd yr UE (gan gynnwys Horizon 2020), ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 a 2020.

42. Gallai rhan o rôl gydgyssylltiedig o'r fath gynnwys dwyn ynghyd yn rheolaidd y cynrychiolwyr o Gymru ym Mrwsel (Aelodau o Senedd Ewrop, aelodau o Bwyllgor y Rhanbarthau, cynrychiolwyr o Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop), Aelodau Cynulliad, ac amrywiaeth o randdeiliaid sefydliadau o Gymru i drafod materion polisi a blaenoriaethau Ewrop sydd i ddod i Gymru. Byddai hyn yn sicrhau ffordd i'r arbenigedd a'r ddealltwriaeth sy'n bodoli yng Nghymru (a Brwsel) i gael eu dwyn ynghyd a'u defnyddio'n fwy effeithiol wrth geisio cael dylanwad yn sefydliadau Ewrop.

Argymhelliad 3: yn unol ag argymhelliad 2, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ei phresenoldeb ym Mrwsel ond ei bod yn atgyfnerthu ei rôl fel yr awgrymir ym mharagraffau 38 a 39 ac yn rhoi mwy o arweinyddiaeth i sefydliadau Cymru drwy fabwysiadu rôl fwy strategol a chydgyssylltiedig (fel yr awgrymir ym mharagraffu 41 a 42).

²⁰ Ymweliad y Pwyllgor, 17 Mehefin 2013

Llais Cymru yn y Cyngor a chydberthnasau â Llywodraeth y DU

43. Roeddem yn ceisio deall sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y penderfynir ar hawliau siarad a pha rôl y mae Llywodraeth Cymru yn ei chwarae yn y broses. Fel rhan o hyn, gwnaethom drafod yr hyn a elwir yn gwestiwn Pen-y-bont ar Ogwr, a gyflwynwyd gan Brif Weinidog Cymru ac a oedd yn un o'r ysgogiadau allweddol inni wrth gynnal yr ymchwiliad hwn. Cyfeiriodd at gwestiwn Pen-y-bont ar Ogwr am y tro cyntaf mewn araith ym mis Mawrth 2012:

“It is worth also mentioning Europe...we hear a lot about the West Lothian Question ... but there’s a related question about Europe which I’m calling the Bridgend Question. Early in my ministerial career I spent many a long day and night, as Agriculture Minister, at the Council of Ministers. Now, there are 4 Agriculture Ministers in the UK and yet, at the Council of Ministers, the English Agriculture Minister casts a vote on behalf of all of us – whether the other 3 of us agree or not. Again, this seems increasingly unsatisfactory and unsustainable as time goes by ... a revised way of dealing with EU business should also form part of our wider debate about the UK’s future.”²¹

44. Eglurodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a'i swyddogion yn fanwl sut y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cael dylanwad ar safbwynt y DU ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor²² a'i drafod, a'r cyfraniad a wneir i'r nodyn annerch.²³ Er y teimla'r Gweinidog fod hawliau siaradwyr yn cael eu cyfyngu yn y Cyngor²⁴, nododd hefyd fod y gallu i gael dylanwad ar siaradwyr o bosibl wedi'i atgyfnerthu oherwydd y gwaith sydd wedi'i wneud i ddatblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.²⁵ O'i brofiad, roedd gormod yn dibynnu ar ewyllys da personol a dymuniadau personol Gweinidogion y DU²⁶ (mater a amlygwyd hefyd gan Weinidog yr Alban²⁷) a'r hyn yr oedd ei angen oedd

²¹ Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru, Wales and the Future of the United Kingdom. *Araith i Gynhadledd Cymru a'r Undeb yn Newid*, 30 Mawrth 2012

²² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 15-16]*, 8 Gorffennaf 2013

²³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 80-85]*, 8 Gorffennaf 2013

²⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 20]*, 8 Gorffennaf 2013

²⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 45]*, 8 Gorffennaf 2013

²⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 20]*, 8 Gorffennaf 2013

²⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 45-46 a 65-68]*, 18 Tachwedd 2013

cydberthynas strwythuredig²⁸, lle caiff disgwyliadau pawb eu deall²⁹, gan ein galluogi i ddod ymlaen - nid pan fyddwn yn cytuno, ond pan fyddwn yn anghytuno".³⁰ Teimlai mai dyma, yn ei hanfod, oedd y pwynt yr oedd Prif Weinidog Cymru yn ei wneud mewn perthynas â chwestiwn Pen-y-bont ar Ogwr.³¹

45. Ym marn y Gweinidog Cyfoeth Naturiol:

"... devolved administration Ministers should have the absolute right of attendance and it should be written in the concordat. I think we should have the right to speak where necessary, rather than the Secretary of State taking a view on that."³²

46. Drwy fynegi'r farn hon, roedd yn eglur wrth siarad yn y Cyngor, y byddai angen glynu wrth nodyn annerch y DU y cytunwyd arno³³, pwynt a adleisiwyd gan Weinidog yr Alban³⁴ ac yn ystod ein hymweliadau Pwyllgor, pan gafodd pwysigrwydd siarad gydag un llais heb dynnu'n groes yn gyhoeddus ei bwysleisio'n barhaus.

47. Siaradodd Gweinidog yr Alban hefyd am rai profiadau rhwystredig mewn perthynas â methu â siarad yng nghyfarfodydd y Cyngor³⁵ ac eglurodd, hyd yn oed wrth lynu at y safbwynt y cytunwyd arno, roedd yr hawl i siarad yn gwneud gwahaniaeth pan fo trafodaethau byw yn cael eu cynnal.³⁶

48. Gofynnodd yr Athro Keating a ddylai'r hawl i gymryd rhan yng nghyfarfodydd y Cyngor fod yn destun sail statudol³⁷, gan nodi mewn rhai gwladwriaethau ffederal yn Ewrop, fel yr Almaen a Gwlad Belg, fod hawliau

²⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 20]*, 8 Gorffennaf 2013

²⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 45]*, 8 Gorffennaf 2013

³⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 65]*, 8 Gorffennaf 2013

³¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 56]*, 8 Gorffennaf 2013

³² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 92]*, 8 Gorffennaf 2013

³³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 93-94]*, 8 Gorffennaf 2013

³⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 59]*, 18 Tachwedd 2013

³⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 59-68]*, 18 Tachwedd 2013

³⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 71]*, 18 Tachwedd 2013

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, EU 4

ynghylch cymryd rhan wedi'u cynnwys yn y cyfansoddiad.³⁸ Yn ei farn ef, byddai cael hawl mor orfodol yn gwella statws gweinyddiaethau datganoledig ac yn eu rhoi mewn sefyllfa well.³⁹ Eglurodd Gweinidog yr Alban nad oedd Llywodraeth y DU wedi derbyn cynnig o'r fath yn ystod y cyfnod o basio *Deddf yr Alban 2012*⁴⁰ a nododd fod yr amser wedi hen fynd heibio mewn perthynas â'r cyfle deddfwriaethol a gafwyd yn ddiweddar.⁴¹

49. Pan holwyd Gweinidogion y DU am y llywodraethau datganoledig yn cael hawl absoliwt i fod yn bresennol, eglurodd fod gwahaniaeth rhwng mynd i gyfarfodydd y Cyngor a bod yn gadeirydd y DU⁴², gan dynnu sylw at y newidiadau a wnaed i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ym mis Hydref 2013⁴³, sy'n sicrhau'r hawl i fod yn bresennol, oni bai bod rheswm cymhellol i beidio â gwneud hynny.⁴⁴ Aeth ymlaen i ddweud:

“When it comes to going into the room, and taking the chair, there are both practical and constitutional issues involved. In practical terms, there is often only one chair, and there are always just a very limited number of seats in the room for the representing Minister and the supporting team. ... In constitutional terms, in most cases, the lead UK Minister concerned will, quite properly, want to be there and personally represent the UK position collectively, but we, as a matter of policy, have said that we will always look properly and sympathetically at requests by devolved Ministers to take the chair, where there is a genuinely good reason to do so. However, ultimately, that is a matter for the lead UK Minister to determine on the spot.”⁴⁵

50. Er ein bod wedi cael rhywfaint o dystiolaeth felly sy'n cefnogi barn Prif Weinidog Cymru ar gwestiwn Pen-y-bont ar Ogwr i ryw raddau, nid ydym wedi ein darbwyllo ei fod yn fater pwysig mewn gwirionedd; sef yr

³⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 22 - 24]*, 15 Gorffennaf 2013

³⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 30]*, 15 Gorffennaf 2013

⁴⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 75]*, 18 Tachwedd 2013

⁴¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 79]*, 18 Tachwedd 2013

⁴² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 85]*, 25 Tachwedd 2013

⁴³ Gweler Llywodraeth Cymru, *Datganiad Ysgrifenedig - Cyd-bwyllgor Gweinidogion - Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth*, 21 Hydref 2013; felly, gwnaed y newidiadau a amlinellir ar ôl y dystiolaeth gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol y cyfeirir ati ym mharagraffau 44 i 45.

⁴⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 87]*, 25 Tachwedd 2013

⁴⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 88]*, 25 Tachwedd 2013

ymdeimlad a gawsom o sylwadau Prif Weinidog Cymru yn ystod ei sesiwn dystiolaeth. Teimlai ei bod yn hanfodol bod dull i gytuno ar safbwynt⁴⁶ ac roedd yn cydnabod os yw Cyd-bwyllgor Gweinidogion Ewrop yn gweithio'n dda y gallai fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o gwestiwn Pen-y-bont ar Ogwr gyda rhywfaint o ewyllys da ymhlith yr holl bleidiau.⁴⁷ Cawsom dystiolaeth gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn nodi bod y Cyd-bwyllgorau'n fforymau defnyddiol a phwysig.⁴⁸

51. Pan holwyd Prif Weinidog Cymru am yr awgrym o gael dull mwy ffurfiol ar gyfer cyfathrebu, dywedodd, o ystyried sefyllfa Cyd-bwyllgor Gweinidogion Ewrop, nad oedd achos i newid y dull.⁴⁹ Er hynny, teimlai os nad yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn gweithio a bod Llywodraeth y DU yn dechrau gwrthod bod yn bresennol, yna bydd angen dull statudol.⁵⁰

52. O ystyried pwysigrwydd y Cyngor yn y broses o wneud penderfyniadau, rydym yn cydnabod bod y peirianwaith rhynglywodraethol o fewn y DU o ran cael dylanwad ar bolisi'r UE yn hanfodol (pwynt a gydnabuwyd gan Dr Hywel Ceri Jones⁵¹) a byddem yn pwysleisio bod y mwyafrif o drafodaethau'n cael eu cynnal o fewn y DU ei hun.

53. Awgrymodd y dystiolaeth gan Brif Weinidog Cymru⁵², y Gweinidog Cyfoeth Naturiol⁵³, a Gweinidog yr Alban⁵⁴, y gall cydberthnasau ag adrannau Whitehall fod yn amrywiol, weithiau, er enghraifft, o ganlyniad i ble mae setliad y datganoliad.⁵⁵ Awgrymodd Paul Cairney, yr Athro Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus ym Mhrifysgol Stirling, fod ymagwedd adrannau Whitehall y DU tuag at lywodraethau datganoledig yn un o esgeulustra diniwed yn

⁴⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 5]*, 2 Rhagfyr 2013

⁴⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 17 - 18]*, 2 Rhagfyr 2013

⁴⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 127]*, 8 Gorffennaf 2013

⁴⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 61]*, 2 Rhagfyr 2013

⁵⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 22]*, 2 Rhagfyr 2013

⁵¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 183]*, 18 Tachwedd 2013

⁵² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 59]*, 2 Rhagfyr 2013

⁵³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 40 a 64-65]*, 8 Gorffennaf 2013

⁵⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 28 a 45-47]*, 18 Tachwedd 2013

⁵⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 40]*, 8 Gorffennaf 2013

hytrach na chynllwyn i eithrio.⁵⁶ Er hynny, cawsom lawer o dystiolaeth am y cydberthnasau cadarnhaol rhwng swyddogion ac yn arbennig, cydberthnasau da ac adeiladol gydag UKRep,⁵⁷ gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn benodol yn mynegi ei ddiolchgarwch am y cymorth y mae'n ei ddarparu.⁵⁸

54. Cawsom wybod hefyd am rai pryderon a fynegwyd gan Brif Weinidog Cymru⁵⁹ a Gweinidog yr Alban⁶⁰ ynghylch yr amrywiad a'r anghysondebau rhwng adrannau Whitehall o ran sicrhau ymgysylltiad cynnar ar faterion polisi sydd o ddiddordeb i lywodraethau datganoledig.

55. Er hynny, noder yr ymgynghorir â Gweinidogion a swyddogion Cymru wrth baratoi nodyn annerch Llywodraeth y DU ar gyfer y Cyngor, ac yr ymddengys bod hwn yn brofiad cynhwysol. Fodd bynnag, yr hyn nad yw'n glir yw pa mor systematig yw cyfraniad Llywodraeth Cymru at y broses hon ym mhob coflen ac yn benodol, pa mor ffurfiol yw'r broses (yn hytrach na'i bod yn cael ei harwain yn rhagweithiol gan Lywodraeth Cymru, gan dargedu materion a phryderon penodol).

Argymhelliad 4: rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i roi blaenoriaeth uchel i'w chyfraniad at y gwaith o baratoi nodyn annerch y DU ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor ond, at hynny, egluro pa mor systematig yw ei chyfraniad at y gwaith paratoi mewn perthynas â phob coflen polisi sy'n ymwneud â materion datganoledig.

56. Yn ein barn ni, yr hyn sydd ei angen yn y system i sicrhau y caiff llais Cymru ei glywed yn glir yw cydberthynas ddwyochrog dda rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Felly, mae'n hynod siomedig, ar ôl dim ond 14 mlynedd o ddatganoli, clywed am amrywioldeb yn ansawdd y cysylltiadau rhwng adrannau Whitehall ac adrannau Llywodraeth Cymru.

57. Mae'n amlwg bod angen i adrannau Whitehall a llywodraethau datganoledig wella sut maent yn rhyngweithio â'i gilydd.

58. O safbwynt Llywodraeth Cymru, mae'r dasg yn bodoli o hyd i feithrin cydberthnasau newydd (waeth pa mor anodd fydd hynny) a gwella'r rhai presennol, yn ogystal â cheisio sicrhau bod strwythurau mor gadarn ac

⁵⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 54]*, 1 Gorffennaf 2013

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig EU 1; Ymweliad y Pwyllgor, 17 Mehefin 2013

⁵⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 110]*, 8 Gorffennaf 2013

⁵⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 63]*, 2 Rhagfyr 2013

⁶⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 28 - 34]*, 18 Tachwedd 2013

effeithiol ag y gallant fod fel nad yw'r system yn dibynnu'n gyfan gwbl ar gydb berthnasau personol da. Mae hwn yn parhau i fod yn berygl cynhenid yn y system.

59. Mae'n gyfrifoldeb hefyd ar Lywodraeth Cymru i fod yn fwy rhagweithiol a strategol wrth ymgysylltu ar bolisiau'r UE. Mae tystiolaeth glir pan fo'n gwneud hyn - er enghraifft gyda'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chronfeydd Strwythurol yr UE - y gall ddylanwadu ar sefyllfa'r DU ac mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu'n dda ar yr ymgysylltiad ag adrannau perthnasol Whitehall.

60. Fodd bynnag, fel y noda ein hadran ddiweddarach ar *ddull strategol Llywodraeth Cymru*, nid yw'n ddigon cadarn yn yr holl feysydd polisi. Rydym yn ymwybodol o waith y Pwyllgor Menter a Busnes ar y rheoliadau Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd ar gyfer Trafnidiaeth / Cyfleuster Cysylltu Ewrop⁶¹, sydd wedi tynnu sylw at broblemau gyda'r trafodaethau rhwng y Comisiwn Ewropeaidd, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

61. Tra bod y Pwyllgor Menter a Busnes yn parhau i ystyried y mater hwn, gall y problemau sydd wedi codi gyda'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd ar gyfer Trafnidiaeth / Cyfleuster Cysylltu Ewrop awgrymu bod teilyngdod i strwythurau statudol mwy ffurfiol (fel y cynigiwyd gan yr Athro Keating) gan y byddent yn sicrhau dull mwy cyson a chydlynol i ymgysylltiad rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Byddent hefyd yn sicrhau diogelwch sefydliadol i ddatrys problemau pan fo cydberthnasau personol neu drefniadau anffurfiol yn chwalu.

62. Fodd bynnag, mae'n amlwg o sylwadau Gweinidog yr Alban nad oes archwaeth gwleidyddol ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU i ystyried hwn o ddifrif fel opsiwn hyfyw. Er hynny, gall y gwelliannau diweddar i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fod yn gam yn y cyfeiriad cywir. Credwn felly fod angen monitro'r sefyllfa fwy i weld os mai dyna yw'r achos.

63. Yn seiliedig ar y dystiolaeth ffafriol ynghylch sut mae'n gweithredu ac o ystyried ei rôl, rydym hefyd yn ystyried bod Cyd-bwyllgor Gweinidogion Ewrop wedi troi'n gorff hollbwysig ar gyfer Cymru o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn cael dylanwad ar y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE.

⁶¹ Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi bod yn trafod rôl Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y trafodaethau ynghylch rheoliadau'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd ar gyfer Trafnidiaeth a Chyfleuster Cysylltu Ewrop yn sgîl hepgor Cymru o'r 'Coridorau Rhwydwaith Craidd' y cytunwyd arnynt yn 2013, er gwaethaf cael ei chynnwys yng nghynigion gwreiddiol y Comisiwn Ewropeaidd a gyhoeddwyd ar 19 Hydref 2011

Argymhelliad 5: rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn crybwyll wrth Lywodraeth y DU sut mae adrannau Whitehall yn cydweithio ag adrannau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â meysydd polisi'r UE mewn meysydd datganoledig ac yn ysgrifennu at y Pwyllgor hwn gyda manylion am ymateb Llywodraeth y DU.

Argymhelliad 6: er mwyn monitro eu heffeithiolrwydd, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud datganiad blynyddol ar sut mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Chyd-bwyllgor Gweinidogion Ewrop yn gweithio o safbwynt Llywodraeth Cymru.

64. Yn ein barn ni, gallai argymhelliad 6 yn rhannol fynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud ag atebolrwydd democrataidd a amlygwyd gan yr Athro Keating⁶² ac sy'n codi o'r anhawster o ddwyn llywodraeth ddatganoledig i gyfrif am drafodaethau a gynhelir y tu ôl i ddrysau caeedig wrth gytuno ar safbwynt y DU cyn cyfarfodydd y Cyngor.

65. Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chlywed yn amlinellu pa mor bwysig ydyw i Lywodraeth Cymru gael strategaeth glir â ffocws gydag adnoddau cyfunion priodol sy'n pennu'r blaenoriaethau ar gyfer ei hymgysylltiad â'r UE ac sy'n ceisio mynd i'r afael â'r gydbberthynas rhwng ei hadrannau a Whitehall.

Rôl Senedd Ewrop

66. Un o'n canfyddiadau mwyaf trawiadol oedd sut mae rôl Senedd Ewrop wedi atgyfnerthu a dod i'r amlwg fwy ers Cytuniad Lisbon, yn arbennig ym meysydd fel amaethyddiaeth a Chronfeydd Strwythurol sy'n bwysig i Gymru. Yn ôl Dr Hywel Ceri Jones, mae'r newidiadau a gyflwynwyd yn sgîl y Cytuniad wedi newid sut y caiff penderfyniadau eu gwneud yn Ewrop yn sylweddol.⁶³

67. Yn ystod ein hymweliadau Pwyllgor, clywsom fod dynamig newydd yn amlwg yn rhan o drafodaethau rhwng y Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop, a bod angen i'r Comisiwn ragweld beth mae'r Senedd yn ei feddwl, tasg a all fod yn eithaf anodd.⁶⁴

68. Gellir gweld dylanwad cynyddol Senedd Ewrop hefyd yng nghyd-destun y trafodaethau tairochrog, sy'n dod yn elfen hanfodol o'r broses o wneud

⁶² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 24 a 28]*, 15 Gorffennaf 2013

⁶³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 12]*, 18 Tachwedd 2013

⁶⁴ Ymweliad y Pwyllgor, 17 Mehefin 2013

penderfyniadau, a lle mae gan Senedd Ewrop rôl arwyddocaol; ystyrir ei bod yn bwysig cael rhywun yn yr ystafell yn ystod y trafodaethau hyn i hwyluso dealltwriaeth a galluogi dylanwad yn ddiweddarach yn y broses.⁶⁵

69. Ni ddylid synied yn rhy isel am bŵer Senedd Ewrop a chredwn ei bod yn ofynnol i bob corff a sefydliad addasu eu hymagwedd tuag at y sefydliad gynyddol ddylanwadol hwn i sicrhau y caiff rhwydwaith priodol o gysylltiadau a chydberthnasau personol eu datblygu. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y gwaith trafod a wneir gan rapporteurs gyda'r Cyngor⁶⁶, ac mewn perthynas â rolau rapporteurs cysgodol, cadeiryddion pwyllgorau a chydgyssylltwyr gwleidyddol y grwpiau gwleidyddol ar bwyllgorau.

70. Clywsom dystiolaeth fod rhai Sefydliadau Anllywodraethol Amgylcheddol, er enghraifft, eisoes wedi elwa ac wedi bod yn anhygoel o effeithiol o ganlyniad i nodi'n gynnar ddylanwad cynyddol Senedd Ewrop ers Cytuniad Lisbon.⁶⁷

71. Felly, roedd yn dda clywed y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn pwysleisio sut y mae'n manteisio ar gyfleoedd i siarad gydag Aelodau o Senedd Ewrop ac ymgysylltu â hwy, nid o Gymru a gweddill y DU yn unig, ond y rheini o rannau eraill o Ewrop yn eu rolau fel rapporteurs.⁶⁸

72. Roedd pwysigrwydd lobïo Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru yn ogystal ag Aelodau eraill o ledled Ewrop, gan dargedu'r rheini sy'n debygol o fod â buddiannau a phryderon tebyg i Gymru, yn neges allweddol arall a glywsom⁶⁹, yn arbennig gan fod gweithio gyda mwy o Aelodau o Senedd Ewrop yn ychwanegu gwerth at yr hyn rydych yn ceisio ei gyflawni.⁷⁰ Er enghraifft, mae academyddion yr Almaen yn arwain y blaen gyda gwaith ymchwil i'r economi forol, felly wrth ystyried arloesedd yn y maes hwn, ystyriwyd ei bod yn synhwyrol lobïo Aelodau o Senedd Ewrop o'r Almaen, gan eu bod wedi bod yn cefnogi'r agenda ar gynyddu'r gefnogaeth ar gyfer ymchwil morol o ganlyniad a hefyd oherwydd y cyfleoedd gweithgynhyrchu a allai godi i fusnesau'r Almaen.⁷¹ Felly, gall gwybodaeth am fuddiannau Aelodau o Senedd Ewrop o bob rhan o Ewrop a dealltwriaeth ohonynt fod yn arbennig o ddefnyddiol.

⁶⁵ Ymweliad y Pwyllgor, 14 Hydref 2013

⁶⁶ Ymweliad y Pwyllgor, 14 Hydref 2013

⁶⁷ Ymweliad y Pwyllgor, 17 Mehefin 2013

⁶⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 99 a 121-122]*, 8 Gorffennaf 2013

⁶⁹ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin 2013 a 14 Hydref 2013

⁷⁰ Ymweliad y Pwyllgor, 14 Hydref 2013

⁷¹ Ymweliad y Pwyllgor, 17 Mehefin 2013

73. Clywsom gan sawl ffynhonnell sut y mae Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru wedi cydweithio fel 'tîm' ar faterion sy'n bwysig i Gymru⁷², gan gynnwys gan Brif Weinidog Cymru⁷³, ac mae hyn wedi'i ystyried fel rhywbeth cadarnhaol a gwerthfawr⁷⁴. Nododd Gweinidog yr Alban hefyd fod Aelodau o Senedd Ewrop o'r Alban yn cydweithio ar y cyd ac yn golegol, sy'n ddefnyddiol wrth geisio cael dylanwad ar agenda'r Alban yn Senedd Ewrop.⁷⁵ Nododd hefyd fod gwaith ar y cyd gan Aelodau o Senedd Ewrop wedi dod yn gynyddol bwysig dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.⁷⁶

74. Awgrymodd Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru rai meysydd i'w gwella yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â hwy,⁷⁷ ac rydym yn croesawu parodrwydd Prif Weinidog Cymru i'w hystyried.⁷⁸

75. Er enghraifft, teimlwyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i ymgysylltu a darparu gwybodaeth berthnasol i'r pedwar Aelod o Senedd Ewrop o Gymru o ystyried y dull tîm sydd wedi'i fabwysiadu. Yn benodol, ystyriwyd bod diffyg gwybodaeth am safbwyntiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygiadau'r UE ar bolisiau a datblygiadau deddfwriaethol, ac eithrio nifer o feysydd allweddol (cronfeydd strwythurol, y Polisi Amaethyddol Cyffredin, cyllideb yr UE).⁷⁹ Cafodd diffyg y papurau briffio systematig gan Lywodraeth Cymru i'r holl Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru ar rai, ond nid pob un, o'r coflenni, ei gyferbynnu â'r papurau briffio gan UKRep i holl Aelodau o Senedd Ewrop y DU.⁸⁰

Argymhelliad 7: rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei dull o ymgysylltu ag Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru ac wrth wneud hynny, ystyried paragraff 75 o'r adroddiad hwn.

76. Yn yr un modd, ystyriwyd nad oedd unrhyw wybodaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru am yr hyn y mae wedi'i wneud i baratoi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Llywodraeth y DU⁸¹ (a eglurir gan Weinidog y DU yn ei

⁷² Ymweliad y Pwyllgor, 17 Mehefin 2013; y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 55]*, 30 Medi 2013

⁷³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 92]*, 2 Rhagfyr 2013

⁷⁴ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin 2013 a 14 Hydref 2013

⁷⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 94]*, 18 Tachwedd 2013

⁷⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 24 a 28]*, 15 Gorffennaf 2013

⁷⁷ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin 2013 a 14 Hydref 2013

⁷⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 92]*, 2 Rhagfyr 2013

⁷⁹ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin 2013 a 14 Hydref 2013

⁸⁰ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin 2013 a 14 Hydref 2013

⁸¹ Ymweliad y Pwyllgor, 14 Hydref 2013

dystiolaeth⁸²); byddai gwybodaeth o'r fath yn ddefnyddiol i Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru, yn ogystal â CLILC ac Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel. Dywedodd Prif Weinidog Cymru nad oes unrhyw reswm pam na ddylai'r memoranda gael eu gwneud yn gyhoeddus ond nododd hefyd y byddai'n dda pe bai Llywodraeth Cymru yn cael mwy o amser i ymateb i femoranda pan ymgynghorir â hi.⁸³

77. Nodwn fod Memoranda Esboniadol Llywodraeth y DU ar gael yn gyhoeddus ac yr anfonir hwy at swyddogion y Cynulliad gan Bwyllgor Craffu ar Waith Ewrop Tŷ'r Cyffredin. Yr hyn nad yw ar gael yw safbwynt Llywodraeth Cymru ei hun ar gynigion o'r fath, pan fo wedi nodi unrhyw faterion sy'n bryder i Gymru.

78. Byddem yn croesawu dull mwy systematig tuag at gyfathrebu gan Lywodraeth Cymru ar ei safbwynt ar goflenni allweddol yr UE. O gofio bod cynigion yr UE fel arfer yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w paratoi, gan gynnwys ymgynghoriad eang gyda rhanddeiliaid, ystyriwn ei bod yn rhesymol disgwyl i Lywodraeth Cymru allu nodi a phennu safbwynt ar flaenoriaethau allweddol.

Argymhelliad 8: rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, ar gyfer holl Femoranda Cyd-ddealltwriaeth Llywodraeth y DU ar gynigion polisi'r UE, yn cyflwyno datganiad (neu ddogfen arall) sy'n nodi ei sylwadau ar y materion polisi a gwmpesir.

79. Byddai hyn unwaith eto yn helpu i fynd i'r afael â'r mater o ran atebolrwydd democrataidd a amlinellwyd gan yr Athro Keating (gweler paragraff 64).

80. O ystyried amlygrwydd cynyddol Senedd Ewrop, mae'r Aelodau o Senedd Ewrop o Gymru yn adnodd hanfodol. Rydym yn ymwybodol bod nifer o Bwyllgorau'r Cynulliad yn gweithio'n integredig â Senedd Ewrop o ran ei fusnes ffurfiol a'r gobaith yw y bydd hyn yn parhau, yn arbennig yn ystod mandad newydd Senedd Ewrop a fydd yn dechrau ym mis Mehefin 2014.

Rôl Pwyllgor y Rhanbarthau a Phwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop

81. Clywsom farn gymysg ar y sefydliadau hyn a'u heffeithiolrwydd, gyda'r mwyafrif yn awgrymu bod eu rôl ac felly eu gallu i gael dylanwad yn

⁸² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 58-65]*, 25 Tachwedd 2013

⁸³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 65-68]*, 2 Rhagfyr 2013

gyfyngedig ac yn fach, tra bod eraill o'r farn bod ansawdd y gwaith yn dibynnu ar ffactorau fel cymhelliant unigolion, yr adnoddau sydd ar gael ac ansawdd y rapporteurs.⁸⁴

82. Rydym yn cydnabod bod Pwyllgor y Rhanbarthau yn rhoi llwyfan i bryderon rhanbarthol penodol gael eu mynegi.⁸⁵ O ganlyniad i hyn, mae'n galluogi'r cynrychiolwyr o Gymru sydd ar Bwyllgor y Rhanbarthau i gael mynediad at holl sefydliadau amrywiol yr UE, ac felly mae'n rhoi cyfleoedd i gael dylanwad ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau.⁸⁶

83. Un o'r pwyntiau a wnaed gan Rhodri Glyn Thomas AC, a roddodd dystiolaeth yn ei rôl fel rapporteur Pwyllgor y Rhanbarthau, oedd yr angen i atgyfnerthu ei gydberthynas â Senedd Ewrop⁸⁷, barn a glywsom yn ein hymweliadau Pwyllgor, ac un yr ydym yn ei chymeradwyo yn gryf.

84. Rydym hefyd yn cytuno gyda Rhodri Glyn Thomas AC bod angen datblygu rôl Pwyllgor y Rhanbarthau⁸⁸ ac rydym hefyd yn croesawu penderfyniad ar y cyd aelodau Cymru o'r corff hwn i fod yn fwy dynamig wrth gydweithio o fewn dirprwyaeth y DU."⁸⁹

85. Credwn fod adolygiad presennol Pwyllgor y Rhanbarthau yn rhoi cyfle i'r corff hwn ailasesu ei rôl a sut y gallai wella ei effeithiolrwydd.

86. Credwn hefyd y dylid sefydlu dull ffurfiol er mwyn galluogi Pwyllgor y Rhanbarthau, drwy ei gynrychiolwyr sy'n Aelodau o'r Cynulliad, i adrodd yn ôl i'r Cynulliad, yn arbennig gan mai Prif Weinidog Cymru sy'n enwebu'r aelodau. Byddai hyn yn cynyddu atebolrwydd Pwyllgor y Rhanbarthau ac yn rhoi statws dyledus i'r gwaith y mae'n ei wneud. Byddai hefyd i ryw raddau'n adlewyrchu'r arfer yn y Trydydd Cynulliad pan oedd yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.

Argymhelliad 9: rydym yn argymhell bod cynrychiolwyr sy'n Aelodau o'r Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau yn gosod datganiad ysgrifenedig

⁸⁴ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin 2013 a 14 Hydref 2013

⁸⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 34-108]*, 23 Medi 2013

⁸⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 38 a 45]*, 23 Medi 2013

⁸⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 56]*, 23 Medi 2013

⁸⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 60]*, 23 Medi 2013

⁸⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 99]*, 23 Medi 2013

gerbron y Cynulliad yn rheolaidd, gan amlinellu'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi'i wneud.

87. Cawsom dystiolaeth ynghylch sut y mae Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop yn gweithio gan un o'i aelodau o Gymru, sef Tom Jones.⁹⁰ Roedd tystion eraill yn amau pwysigrwydd Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop.⁹¹ Er hynny, roedd yn bryder clywed mai ychydig iawn o gefnogaeth sydd ar gael i aelodau Cymru o Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop gyda'u gwaith⁹². Credwn fod angen mwy o ffocws i'w gwaith ac y gellir helpu gyda hyn drwy'r gefnogaeth a ddarperir gan swyddfa'r UE Llywodraeth Cymru (gweler paragraff 42).

Argymhelliad 10: rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi eglurhad o'i chydberthynas ag aelodau Cymru o Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop a'i bod hefyd yn rhoi'r lefel briodol o gefnogaeth iddynt i sicrhau eu bod wedi'u briffio'n llawn pan fyddant yn cynrychioli Cymru yn eu trafodaethau.

88. Roeddem hefyd yn pryderu ynghylch yr amserlen hir a oedd weithiau'n gymwys wrth benodi aelodau newydd o Gymru i Bwyllgor y Rhanbarthau⁹³ a Phwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop.⁹⁴

Argymhelliad 11: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ystyried ffyrdd o gyflymu'r broses o benodi aelodau newydd o Gymru i Bwyllgor y Rhanbarthau a Phwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop.

Dull strategol Llywodraeth Cymru

89. Mae'r adroddiad hwn wedi ystyried sut y caiff dylanwad ei arfer i gael y budd mwyaf i Gymru yn Ewrop ac fel rhan o hynny, rolau rhanddeiliaid amrywiol yn y broses honno, yn arbennig Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, rydym wedi cael adborth cadarnhaol ar sut y mae Cymru, ac yn benodol Llywodraeth Cymru, yn ymgysylltu â'r Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys yn y gwaith o ffurfio polisi; gweithredu rhaglenni yng Nghymru, ac wrth ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi. Gwrandewir ar Gymru yn gyffredinol a chaiff ei

⁹⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 19 - 110]*, 30 Medi 2013

⁹¹ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin 2013 a 14 Hydref 2013

⁹² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 28, 70 ac 86]*, 30 Medi 2013

⁹³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 35]*, 23 Medi 2013

⁹⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 36-37 a 40]*, 30 Medi 2013; Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 105-114]*, 2 Rhagfyr 2013;

gweld fel gwlad arloesol ym meysydd polisiâu rhanbarthol ac amaethyddol, gyda rhai sefydliadau'n tynnu sylw at broffil uchel y Gweinidog Cyfoeth Naturiol.⁹⁵

90. Mae'n rhaid i strategaeth gydlynol gref sy'n pennu cyfeiriad clir fod yn sail i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflawni ei hamcanion. Pwysleisiwyd y pwynt hwnnw'n gryf inni ar sawl achlysur.⁹⁶

91. Soniodd yr Athro Cairney am bwysigrwydd llywodraethau datganoledig yn gwneud y gwaith, gan holi'n gyson pa faterion sy'n codi gan Lywodraeth y DU a meddu ar strategaeth i ymdrin â hwy yn hytrach nag aros i rywun ymgynghori â hwy.⁹⁷ Credwn y golyga hyn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol tuag at yr ymgysylltiad hwn, a defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael iddi (gan gynnwys y rheini ym Mrwsel) i gefnogi hyn.

92. Teimlai'r Athro Keating wrth wneud sylw ar amlygrwydd isel Ewrop o fewn yr Alban:

“... sometimes, the devolved administrations are not geared up to ... picking up what are the important issues and where they should get involved. You cannot get involved in everything—you have to be selective in what you get involved in.”⁹⁸

93. Fodd bynnag, clywsom gan Weinidog yr Alban sut y mae Llywodraeth yr Alban wedi defnyddio dull â ffocws wrth ymgysylltu, gan dargedu pedwar prif faes a nododd ei fod yn sicrhau arweinyddiaeth a ffocws i'r meysydd allweddol sy'n cael sylw.⁹⁹

94. Crybwyllwyd Horizon 2020 sawl tro yn ystod ein gwaith o gasglu tystiolaeth¹⁰⁰ a chaiff ei ystyried fel un o'r meysydd mwyaf heriol a lleiaf tryloyw i ymdrin ag ef.¹⁰¹ Oherwydd hynny, awgrymwyd bod angen sylw

⁹⁵ Ymweliad y Pwyllgor, 17 Mehefin 2013

⁹⁶ Ymweliadau'r Pwyllgor, 17 Mehefin 2013 a 14 Hydref 2013

⁹⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 70]*, 1 Gorffennaf 2013

⁹⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 48]*, 18 Tachwedd 2013

⁹⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 82]*, 18 Tachwedd 2013

¹⁰⁰ Er enghraifft, gweler y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 60]*, 15 Gorffennaf 2013

¹⁰¹ Ymweliad y Pwyllgor, 17 Mehefin 2013

arbennig gan Gymru gydag ymgysylltiad uniongyrchol gan ddiwydiannau a phrifysgolion ac y dylid cael gweledigaeth strategol i fanteisio arno.¹⁰²

95. Nododd Dr Hywel Ceri Jones ei fod wedi gweld, am y tro cyntaf, agenda wleidyddol Cymru ar gyfer y cyfnod nesaf yn dilyn yr un trywydd ag agenda wleidyddol yr UE¹⁰³, gan awgrymu mai sefyllfa debyg yn Iwerddon oedd un o'r rhesymau dros lwyddiant y Teigr Celtaidd. Drwy wneud hynny awgrymodd mai'r cyfnod nesaf hyd at 2020 yw'r cyfle olaf gydag arian Ewrop, gan ychwanegu mai'r her fwyaf mae'n debyg yw cael cyfranogiad llawn y sector preifat.¹⁰⁴

96. Nodwn fod strategaeth yr UE Llywodraeth Cymru¹⁰⁵ yn rhestru 14 o feysydd polisi eang. Yn ein barn ni, ymddengys ei bod yn nodi dyheadau yn unig; nid yw'n pennu unrhyw dargedau na cherrig milltir, ac nid yw'n cynnwys unrhyw broses ar gyfer gwerthuso na mesur llwyddiant. O ganlyniad, credwn fod dull Llywodraeth Cymru yn rhy adweithiol yr olwg a hefyd nad oes digon o feddwl cynnar yn canolbwyntio ar amcanion Llywodraeth Cymru yn y pen draw.

97. Credwn yn gryf fod angen i Lywodraeth Cymru adolygu a diwygio ei strategaeth ar gyfer yr UE a gwneud y gwaith hwn mewn ffordd dryloyw ac agored, gan fanteisio ar ddealltwriaeth a phrofiad eang yr ymgysylltiad â'r UE yng Nghymru, Brwsel ac mewn mannau eraill.

98. Drwy wneud hyn, mae angen i Lywodraeth Cymru nodi'r blaenoriaethau allweddol a chanolbwyntio ar y rhain, oherwydd fel yr ydym wedi clywed, nid yw'n bosibl trafod yr holl faterion yn fanwl. Mae hefyd angen targedau clir ar gyfer pob maes blaenoriaeth yn y strategaeth gyda gwybodaeth am sut y cânt eu cyrraedd a phwy fydd yn rhan o'r gwaith hwnnw.

99. Credwn fod dull â ffocws yn bosibl gan fod y dystiolaeth rydym wedi'i chlywed yn amlwg yn dangos fod Llywodraeth Cymru wedi dangos ei bod yn fedrus ac yn llwyddiannus ym meysydd amaethyddiaeth a Chronfeydd Strwythurol, a thrwy waith caled, yn arbennig gwaith caled y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a swyddogion Llywodraeth Cymru, mae wedi meithrin cydberthnasau da yn y meysydd hyn.

¹⁰² Ymweliad y Pwyllgor, 17 Mehefin 2013

¹⁰³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 218]*, 18 Tachwedd 2013

¹⁰⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 234]*, 18 Tachwedd 2013

¹⁰⁵ Llywodraeth Cymru, *Cymru a'r Undeb Ewropeaidd, Strategaeth yr UE Llywodraeth Cymru*, Mai 2012

100. Yn ein barn ni, mae'n rhaid i ran o'r strategaeth ddiwygiedig honno gynnwys dull gweithredu strwythuredig a chytbwys o ran secondiadau. Clywsom dystiolaeth sylweddol a chymhellol ar bwysigrwydd secondiadau: er enghraifft, gan Weinidog yr Alban ¹⁰⁶, Dr Hywel Ceri Jones¹⁰⁷ ac yn ystod ein hymweliadau Pwyllgor. Mynegwyd rhywfaint o bryder cyffredinol ynghylch y lleihad yn y defnydd o secondiadau ledled y DU¹⁰⁸, er yr ymddengys bod pethau'n gwella¹⁰⁹. Teimlai Dr David Hughes fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i anfon ei swyddogion ar secondiad i Frwsel ond awgrymodd fod problem gyda recriwtio swyddogion llawn amser.¹¹⁰ Tynnodd Prif Weinidog Cymru a swyddog gydag ef sylw at record Llywodraeth Cymru ar secondiadau a'r dull a fabwysiadwyd.¹¹¹ Clywsom dystiolaeth hefyd am arfer mewn gwledydd eraill gan yr Athro Keating, a eglurodd beth wnaeth Iwerddon a sut y bu'n llwyddiannus yn y maes hwn.¹¹²

101. Fel y nodir yn glir yn yr adroddiad hwn, ystyriwn ei bod yn bwysig defnyddio dylanwad a chysylltiadau pan fo'r rhain ar gael. Mae cyfleoedd am secondiadau'n cynnig y gallu i swyddogion nid yn unig wella eu dealltwriaeth o sut y mae sefydliadau Ewrop yn gweithio ond hefyd i nodi a meithrin cysylltiadau Cymreig allweddol o fewn sefydliadau'r UE, a fydd yn ddefnyddiol iawn pan fyddant yn dychwelyd i Gymru. Fodd bynnag, nid oedd yn glir pa mor rhagweithiol yw Llywodraeth Cymru wrth geisio trefnu secondiadau i swyddogion; dangosodd tystiolaeth Prif Weinidog Cymru a swyddog gydag ef ymrwymiad mewn egwyddor ond awgrymwyd mai'r ffordd o wneud pethau yw ymateb i gyfleoedd fel y byddant yn codi o fewn sefydliadau'r UE.¹¹³

Argymhelliad 12: rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn diwygio ei strategaeth ar gyfer yr UE cyn gynted â phosibl, gan ystyried yr holl argymhellion a'r sylwadau a fynegir yn yr adroddiad

¹⁰⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 92]*, 18 Tachwedd 2013

¹⁰⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 189]*, 18 Tachwedd 2013

¹⁰⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 189]*, 18 Tachwedd 2013

¹⁰⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 92]*, 18 Tachwedd 2013

¹¹⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 164]*, 15 Gorffennaf 2013

¹¹¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 51 ac 83-88]*, 2 Rhagfyr 2013

¹¹² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 52]*, 15 Gorffennaf 2013

¹¹³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 85-88]*, 2 Rhagfyr 2013

hwn. Dylid gwneud hyn mewn ffordd agored a chynhwysol, gan ymgynghori'n ffurfiol â phob sefydliad perthnasol i sicrhau yr ystyrir y cyfoeth o wybodaeth a diddordeb yn Ewrop sy'n bodoli yng Nghymru.

Argymhelliad 13: rydym yn argymell y cynhelir dadl flynyddol ar strategaeth yr UE yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol i gydfynd â'r datganiad blynyddol y cyfeirir ato yn argymhelliad 6.

102. Yn ein barn ni, bydd argymhellion 6 a 13 gyda'i gilydd yn darparu mesur cryfach o atebolrwydd ar gyfer gweithgareddau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ewrop.

Atodiad 1 – Rhestr dystiolaeth

Rhoddodd y bobl a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor.

Enw / Sefydliad	Cyfeirnod
Iwan Williams, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	EU 1
Kay Powell, Cymdeithas y Cyfreithwyr	EU 2
Einion Dafydd, Prifysgol Aberystwyth	EU 3
Yr Athro Michael Keating, Prifysgol Aberdeen	EU 4
Adrian Halfyard, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad	EU 5
David Hughes, Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru	EU 6
Tom Jones, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop	EU 7
Fiona Hyslop MSP, Llywodraeth yr Alban	EU 8

Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn:

www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=6722

Atodiad 2 – Rhestr o dystiolaeth lafar ac ymweliadau'r Pwyllgor

Rhestr o dystiolaeth lafar

<i>Dyddiad y cyfarfod</i>	<i>Tyst</i>
1 Gorffennaf 2013	Yr Athro Peter Cairney, Prifysgol Stirling
8 Gorffennaf 2013	Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
15 Gorffennaf 2013	Yr Athro Michael Keating, Prifysgol Aberdeen David Hughes, Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru
23 Medi 2013	Rhodri Glyn Thomas AC, Pwyllgor y Rhanbarthau
30 Medi 2013	Tom Jones, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop
18 Tachwedd 2013	Fiona Hyslop MSP, y Gweinidog Diwylliant a Materion Allanol
25 Tachwedd 2013	Y Gwir Anrhydeddus David Lidington AS, Gweinidog Gwladol y DU dros Ewrop
2 Rhagfyr 2013	Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru

Ymweliadau'r Pwyllgor â Brwsel

<i>Dyddiad yr ymweliad</i>	<i>Yr Aelodau a oedd yn bresennol</i>
17 Mehefin 2013	David Melding AC ac Eluned Parrott AC
14 Hydref 2013	Suzy Davies AC a Simon Thomas AC

Atodiad 3 - Y Weithdrefn Ddeddfwriaethol Gyffredin: diagram enghreifftiol

